Amgueddfa Cymru



# Yn cyflwyno Her Fer Dinasyddiaeth Fyd-eang

**MATER: YMFUDO A THLODI**
**FFOCWS: LLAFUR PLANT**

national museum wales
amgueddfa cymru



# Beth yw'r Her Fer?

- Nod yr heriau yw profi eich Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol
- Bydd yr Her hon yn canolbwyntio ar

  **- Ddatrys Problemau a Myfyrdod Beirniadol**
  **- Creadigrwydd ac Arloesi**

VIKTOR88/SHUTTERSTOCK.COM; LLUN Y CLAWR: JEZPER/SHUTTERSTOCK.COM

# Beth yw'r Her Fer?

- Mae Amgueddfa Cymru'n eich herio i ymchwilio i'r pwnc **Ymfudo** ddoe a heddiw

- Eich her wedyn yw datblygu **safbwynt personol** ar y mater hwn a phecyn adnoddau ar gyfer gweithgaredd i **godi ymwybyddiaeth** o'r mater hwn i'ch cyd-ddisgyblion




GETTY IMAGES NEWS YAWAR NAZIR

# Deall Ymfudo a Llafur Plant

- Ymfudo yw pan fydd pobl yn symud gwledydd neu ardaloedd ar gyfer gwaith neu er mwyn chwilio am fywyd gwell

- Ymfudodd llawer o blant gyda'u rhieni o Iwerddon, i weithio yn y diwydiant copr yn ardal Abertawe yn y 19eg ganrif



AMGUEDDFA CYMRU

**Roedd Abertawe yn cael ei hadnabod fel Copperopolis.**

# Deall Ymfudo a Llafur Plant

- Mae llawer o blant heddiw yn ymfudo gyda neu heb eu rhieni i weithio mewn ardaloedd neu wledydd eraill

- Mae llawer yn dod yn rhan o'r diwydiant masnachu pobl – yn cael eu cymryd yn erbyn eu hewyllys a'u gorfodi i weithio yn y diwydiant mwyngloddio neu'r diwydiant rhyw




GETHIN CHAMBERLAIN AR GYFER Y *GUARDIAN*, AWST 2012

**Ymgyrchydd sy'n gwrthwynebu llafur plant yn ceisio achub bachgen ifanc yn ystod ymgyrch sy'n targedu masnachwr mewn plant.**

# Deall Ymfudo a Llafur Plant

- Roedd ymfudo a llafur plant yn bodoli yng Nghymru yn y diwydiannau copr, glo a haearn yn ystod y 19eg ganrif

- Bydd ymweld ag amgueddfeydd fel Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac ymchwilio i wefannau fel 'Byd Copr Cymru' yn eich helpu i ddeall y materion sy'n gysylltiedig ag ymfudo, tlodi a llafur plant



AMGUEDDFA CYMRU

**Gweithfeydd copr Hafod, Abertawe**

# Deall Ymfudo a Llafur Plant

Mae Ymfudo a Llafur Plant yn bwnc emosiynol sy'n codi cwestiynau pwysig:

- Beth yw'r achosion?
- Pam y bu'n broblem yn y gorffennol a pham mae'n parhau heddiw?
- Sut mae'n effeithio ar blant a'r cymunedau lle maent yn byw?
- A yw llafur plant yn beth drwg bob tro?



GETTY IMAGES NEWS VEONIQUE DE VIGUERIE

# Ydych chi’n cytuno gyda’r Cenhedloedd Unedig?

Mae llafur plant yn cyfeirio at unrhyw waith a wneir gan blant o dan 12 oed, gwaith nad yw’n waith ysgafn a wneir gan blant rhwng 12-14 oed a gwaith peryglus a wneir gan blant 15-17 oed. Diffiniwyd gwaith ysgafn fel ‘unrhyw waith nad yw’n amharu ar iechyd a datblygiad y plentyn, ac nad yw’n ymyrryd â phresenoldeb y plentyn yn yr ysgol.’

(Confensiwn Sefydliad Llafur Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig 1973)



GETTY IMAGES

# A ydych yn credu bod y cytundeb hwn wedi gweithio?

Ym 1990 mabwysiadodd y Cenhedloedd Unedig y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Yn unol ag Erthygl 32 o'r confensiwn cytunodd 193 o wledydd i

*'...gydnabod hawl y plentyn i gael ei amddiffyn rhag cam-fanteisio economaidd a rhag gwneud unrhyw waith sy'n debygol o fod yn beryglus neu o ymyrryd ag addysg y plentyn, neu sy'n debygol o fod yn niweidiol i iechyd neu ddatblygiad corfforol, meddyliol, ysbrydol, moesol neu gymdeithasol y plentyn.'*



GETTY IMAGES PRAKASH MATHEMA

**Ymfudwyr mewn gweithfeydd briciau yn Nepal.**

# Pam ydych chi'n meddwl fod cymaint o Lafur Plant o hyd?

Nid yw'r Cenhedloedd Unedig wedi rhoi terfyn ar lafur plant. Mae llafur plant yn parhau i fod yn gyffredin mewn llawer o rannau o'r byd. Mae amcangyfrifon o ran llafur plant yn amrywio. Mae'n amrywio rhwng 250 a 304 miliwn, os caiff plant rhwng 5 ac 17 oed sy'n gwneud unrhyw weithgaredd economaidd eu cyfrif.



AFP DIBYANGSHU SARKAR

**Plant yn gweithio yn India.**

# Ai tlodi yw'r unig reswm dros Lafur Plant?

- Mae diwylliant Ethiopia yn annog plant i weithio er mwyn datblygu sgiliau

- Mae deddfau yn yr Unol Daleithiau yn caniatáu i blant ysgol Amish rhwng 14 a 18 oed weithio gyda'u teuluoedd ar ôl yr 8fed dosbarth. Mae'r Amish yn credu mai un ffordd effeithiol o addysgu plant yw wrth eu gwaith



AUTHOR GADJOBOY FROM FLICKR.COM

# Beth sy’n rhaid i chi ei wneud ar gyfer yr Her Fer?

1. Gwneud gwaith ymchwil ar y pwnc **Ymfudo a Llafur Plant** a chyflwyno **Safbwynt Personol** ar y mater byd-eang hwn

2. Datblygu **Gweithgaredd Codi Ymwybyddiaeth** i’w ddefnyddio gyda disgyblion iau. Cynhyrchu **Pecyn Codi Ymwybyddiaeth** sy’n cyfleu eich syniadau

3. Cwblhau **Myfyrdod Personol**

# TASG 1 Eich Safbwynt Personol

- Chwiliwch am wybodaeth am y pwnc o amrywiaeth o ffynonellau

- Chwiliwch am wybodaeth am yr agweddau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol ac amgylcheddol (PESTLE)

- Nodwch eich barn bersonol am dlodi a llafur plant, gan wneud sylwadau am ddibynadwyedd y ffynonellau yr ydych yn cyfeirio atynt

ZUDY/SHUTTERSTOCK.COM

# Gwnewch Sylwadau ar Ddibynadwyedd eich Ffynonellau

| | |
|---|---|
| **Pa mor ddefnyddiol yw'r ffynhonnell?** | Pa wybodaeth y gallwch ei chael o'r ffynhonnell hon? A yw'r wybodaeth yn fanwl neu wedi'i chyfyngu mewn unrhyw ffordd? |
| **Pa resymau sydd dros gredu'r ffynhonnell?** | Beth sy'n gwneud y ffynhonnell hon yn gredadwy ac yn ddibynadwy? Er enghraifft, a yw'n ddogfen swyddogol gan y llywodraeth, a yw'n dystiolaeth uniongyrchol gan lygad-dyst, neu a yw'n cyd-fynd â ffynonellau dibynadwy eraill? |
| **A oes unrhyw resymau dros amau'r ffynhonnell?** | A allai'r ffynhonnell neu rannau ohoni fod yn annibynadwy h.y. a allai fod yn anghywir, yn gelwydd, yn rhagfarnllyd, neu wedi'i gorliwio? |

# Gwnewch sylw ar yr agweddau Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol

| | |
|---|---|
| **GWLEIDYDDOL** | Barn a gweithredoedd llywodraethau a gwleidyddion |
| **ECONOMAIDD** | Agweddau a gweithredoedd rhieni a chyflogwyr |
| **CYMDEITHASOL** | Credoau cymdeithasol, diwylliannol a chrefyddol mewn rhai cymunedau |
| **TECHNOLEGOL** | Y defnydd o lafur plant gyda thechnoleg, peiriannau neu gyfarpar penodol |
| **CYFREITHIOL** | Cyfreithiau sy'n ymwneud â llafur plant a pha mor effeithiol ydynt |
| **AMGYLCHEDDOL** | |

# TASG 2 Codi Ymwybyddiaeth

- Lluniwch becyn adnoddau ar gyfer gweithgaredd i **godi ymwybyddiaeth** o **ymfudo a llafur plant** ymysg disgyblion iau yn eich ysgol chi

- Byddwch yn greadigol ac yn arloesol. Gallech ystyried cyflwyniadau, taflenni, ymgyrchoedd, gwefannau, blogiau, barddoniaeth, caneuon, posteri neu, yn well fyth, cyflwynwch eich syniadau gwreiddiol eich hun



(IMAGE:SERGEY NIVENS/SHUTTERSTOCK.COM)

# TASG 3 EICH MYFYRDOD PERSONOL

- Cofnodwch ac adolygwch eich **rôl bersonol** a'ch cyfraniad

- Myfyriwch ar eich **effeithiolrwydd personol**, gan gynnwys eich rôl chi ac fel aelod o dîm

- Os ydych wedi gweithio fel tîm, cofnodwch ac adolygwch sut y gwnaethoch ddatblygu a defnyddio eich **sgiliau personol** a'ch **sgiliau o ran gweithio mewn tîm**

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys **Creadigrwydd ac Arloesedd, a Myfyrdod Beirniadol a Datrys Problemau**



VLADYSLAV STAROZHYLOV/SHUTTERSTOCK.COM

# Sut y byddwch yn cael eich barnu?

- Pa mor dda rydych yn gweithio fel unigolyn neu fel rhan o dîm
- Eich Myfyrdod Beirniadol a'ch gallu i Ddatrys Problemau, a'ch Creadigrwydd ac Arloesedd
- Ansawdd eich **Safbwynt Personol** a'ch **gweithgaredd a phecyn Codi Ymwybyddiaeth**

# I'ch helpu i ateb eich briff, byddem yn awgrymu eich bod yn:

1. **Ymweld ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**

2. **Paratoi ar gyfer yr Her Fer gan ddefnyddio Pecyn Ffynonellau a Gweithgareddau Amgueddfa Cymru**

- Mae Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn Abertawe yn adrodd stori ddynol diwydiant, arloesi a chyflawniad yng Nghymru